# CYNGOR CYMUNED *LLANWINIO* COMMUNITY COUNCIL

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanwinio ar nos Fawrth 14eg o Fawrth 2017 am 8.00yn yn Neuadd Gymuned Llanwinio.

**PRESENNOL:** Cyng P Walton, J Phillips, W Evans, D Lewis, H James, J Lewis (CSC) a

K Bowen (clerc).

**YMDDIHEURIADAU:** Cyng D Evans, G Evans.

**COFNODION:** Darllenwyd cofnodion cyfarfod 17eg o Ionawr a derbyniwyd yn gywir.

**DATGANIADAU O DDIDDORDEB:** H James – Eitem 9 rhent tir cyngor

**MATERION YN CODI:**

Ynglyn a rheolaeth o'r Neuadd Gymunedol, yn ychwanegol i'r tri ymddiriedolwr o'r Gymdeithas Gymunedol fe fydd cynrychiolwyr o bob grwp lleol yn eistedd ar bwyllgor y neuadd. Mae defnydd o'r neuadd yn cynyddu ac mae peth gwaith peintio wedi ei wneud i wella'r adeilad.

Yn dilyn y cyfarfod yn Meidrim ar yr angen am dai gwledig fe wnaeth Cyng J Lewis (CSC) annog cynghorwyr i lenwi yr holiadur ynglyn a'r gofyn am dai lleol.

Mae Mr C Henry wedi cytuno i ymgymryd a'r archwiliad mewnol am 2016/17, yn dilyn canllawiau Un Llais Cymru.

**GOHEBIAETH:**

Mae cytundeb newydd wedi ei dderbyn oddi wrth Diane Malley am adnewyddu gwasanaethau cyflogresi. Cytunodd cynghorwyr i dderbyn y cytundeb newydd a fydd yn dechrau ym mis Ebrill 2017.

Hysbysodd CSC y Cyngor byddai'r gost am olau stryd am y flwyddyn ariannol 2017/18 tua £1104.68.

Derbyniodd y Cyngor Cymuned llythyr o ddiolch oddi wrth Cymdeithas Gymunedol Llanwinio am ei cyfraniad o £17,000 tuag at brynu Neuadd Llanwinio i'r gymuned.

Derbyniwyd gwahoddiad oddi wrth CFfI Sir Gar i fynychu ei rali ar ddydd Sadwrn 13eg o Fai 2017. Roedd dau docyn mynediad hefyd wedi eu derbyn.

Derbyniwyd ceisiadau am gymorth ariannol oddi wrth Tenovus, Cruse Bereavement Care, Royal Welsh Agricultural Society, Teenage Cancer Trust a Bobath Children's Therapy Centre Wales. Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd i beidio cefnogi unrhyw gais yn y flwyddyn ariannol bresennol.

Ysgrifenodd y Comisiwn Ffiniau dros Gymru i hysbysu'r Cyngor fod y cyfnod ymgynghori eilaidd o adolygiad 2018 o'r etholiadau seneddol yng Nghymru yn rhedeg o Chwefror 28 i Mawrth 27. Gall pob ymateb a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynhori cychwynnol eu gweld a gwneud sylw arno ar wefan y Comisiwn – www.bcw2018.org.uk

Derbyniwyd arolwg o gynghorau thref a chymuned oddi wrth Llywodraeth Cymru. Clerc i'w lenwi a dychwelyd.

Fe wnaeth CSC ddanfon gwybodaeth ar sut i ddod yn Arolygwr Lle Chwarae. Penderfynwyd ei ddanfon ymlaen at Cymdeithas Gymunedol Llanwinio..

Derbyniwyd gwybodaeth oddi wrth Kidney Wales am ei digwyddiadau 'Walk for Life' i'w cynnal ar dydd Sul Ebrill 23. Gellir cael rhagor o wybodaeth ar www.kidneywales.cymru

Derbyniwyd gohebiaeth oddi wrth Menter Cwm Gwendraeth am ei prosiect newydd i leihau tlodi tanwydd: 'Gweithrediad Ynni Lleol'. Mae'r prosiect yn anelu i gynorthwyo cyfundrefnau a chymunedau efo lleihau biliau ynni, sefydlu clybiau tanwydd a chyngor ar ynni cartef. Am ragor o wybodaeth cysylltwch a Paul Thomas ar 01269 871600 neu e-bost: Paul@mcge.org.uk

Ysgrifenodd Zurich Municipal yn cynnig i roddi pris am yswiriant cyngor. Clerc i gael pris.

**DERBYNIADAU:**

| | |
|---|---|
| GVO Wind No. 24 – lles cymunedol | £2500.00 |

**BILIAU:**

| | |
|---|---|
| Aelodaeth Un Llais Cymru am 2017/18 | £57.00 |
| CSC - golau stryd 1/4/16 – 31/3/17 | £1031.76 |
| SSE- trydan i neuadd gymunedol Llanwinio 1/1/17 – 25/1/17 | £5.44 |
| Dŵr Cymru – cae chwarae Blaenwaun 22/6/16 – 13/1/17 | £23.12 |

**CYNLLUNIO:**

W/35160 Newid defnydd o rhan fach o dir o ddeunydd coedwigol/amaethyddol i breswyl a chadw sied sy'n bodoli fel llety ategol i Trecyrn Fawr ( mewn adolwg) ar dir yn agos i Trecyrn Fawr, Blaenwaun. CYNLLUNIO LLAWN.

W/35194 Codi byngalo newydd a garej ar dir ar Fferm Lion, Blaenwaun. CYNLLUNIO LLAWN.

**RHENT:**

*(Fe wnaeth Cyng H James ddatgan diddordeb a gadodd y cyfarfod)*

Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd y byddai rhent tir yn codi i £20 yr erw am 2018/19.

*(Ail ymunodd Cyng H James a'r cyfarfod.)*

**CÔD YMDDYGIAD:**

Hysbysodd y clerc y Cyngor fod y Côd Ymddygiad wedi newid ac yn effeithiol o Ebrill 1af 2016. Cymeradwyodd y Cyngor y Côd Ymddygiad newydd.

**PROSIECT HAWLIAU FFYRDD:**

Mae'r cynlluniau am 2017/18 wedi eu cytuno efo CSC gan gynnwys rhai llwybrau a awgrymwyd gan Ms Agoust.

**U.F.A.**

Cynhelir ffair Pasg yn Neuadd Gymunedol Llanwinio ar ddydd Sadwrn Ebrill 8fed am 2.00yp. Fe fydd y Cyngor Cymuned yn gyfrifol am y stondin poteli.

Gan fod yna ddim rhagor o fusnes fe wnaeth y Gadair ddiolch i bawb oedd wedi mynychu a datganodd fod y cyfarfod ar gau.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r Cyngor ar nos Fawrth 16eg o Fai 2017 am 8.00yh yn Neuadd Gymuned Llanwinio.**